Cofnodion y cyfarfod ar 15fed o Ionawr 2025

Yn bresenol oedd Arwyn Ellis, Generys Roberts, Medwyn Roberts, Gethin Jones, Helen Jones (cadeirydd) a cygh Gwennol Ellis. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Jones a Eryl Evans.
Arwyddwyd y codnodion blaenorol fel rhai cywir.
Neb yn datgan diddordeb ir Agenda.
Gohebiaeth

1. Ambiwlans Awyr Cymru – llythyr o ddiolch am ein cyfraniad o £235.00 (tan gwyllt a swper pensiynwyr)
2. Cyngor Sir conwy - anfoneb am y cynllun chwarae 2024 - £200.00 pasiwyd iw dalu.
3. Cyngor Sir Conwy – gofyn am gyfraiad ir cynllun chwarae 2025 - nodwyd gan y clerc bod arian wedi ei glustnodi i hwn yn barod.
4. Cyngor Sir Conwy - precept am y flwyddyn sydd i ddod pasiwyd i ofyn am £7,000.00.
5. Swper Pensiynwyr – talwyd £399.00 am y swper yn y Giler fis Tachwedd 2024.
6. Lelo sgip - anfoneb am sgip mis Tachwedd £312.00 pasiwyd iw dalu.
7. Dwr Cymru – anfoneb £76.51 wedi ei dalu DD.
8. Cyngor Sir Conwy - taliad precespt olaf 2024 £2,333.00
9. Adroddiad cyngh Gwennol Ellis. Y Bont y Crown y Sir yn aros i weld os fydd cyllideb ar gyfer ei thrwsio mwy o fanylion fis Mawrth. Bunglo Bro Alwen bydd arwydd ar rent yn cael ei hysbysebu am fis ac yna os nad oes ddiddorbeb bydd yn cael ei werthu.
10. UNRHYW FATER ARALL Cyngor Conwy – gully wedi blocio ar y ffordd wrth Ty Isa, hysbysu Sir am hyn.
11. Cyngor Conwy - cysylltu efo Sir am ddwr yn sefyll ar y ffordd ger Tan y Gaer.
12. Parc Chwarae – pasiwyd i gychwyn ceisio am grant i gael parc chwarae yn y Gro a gofyn i Marc Roberts ein cynorthwyo iw drafod ymhellach.
13. Bin Cwn yn y Gro – y clerc i erych os oes biniau baw cwn ar y Gro.
14. Coeden Dolig - cysylltu efo Dewi a Haf i ddiolch iddynt am adael inni gael cyflenwad trydan i oleuo’r goeden cysylltu i ofyn faint yw y gost trydan.